GISDA
CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE



# NEWYDDLEN

## NADOLIG 2024

### CROESO I NEWYDDLEN NADOLIG 2024 GISDA!

Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, rydym yn awyddus i rannu'r newyddion a digwyddiadau diweddaraf gan **GISDA**. Mae'n sicr wedi bod yn gyfnod llawn digwyddiadau cyffrous, ac yn y rhifyn hwn, byddwn yn sôn am rhai o'r ffyrdd mae **GISDA** yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc bregus Gwynedd.

## GOLLWNG YN :

23 BONT BRIDD, CAERNARFON, LL55 1AB

25 GAOL STREET, PWLLHELI, LL53 5DB

49 STRYD FAWR, BLAENAU FFESTINIOG, LL41 3AG

## APEL Y NADOLIG

Rydym yn apelio am roddion i bobl ifanc 14-25 GISDA

DYDDIAD CAU - 16/12/24

TALEBAU ANRHEG * BAGIAU
NWYDDAU YMOLCHI * DILLAD
PJS * SIOCLED * COLUR






**Rydym yn falch o gyhoeddi bod Anya, merch 18 oed a gefnogir gan GISDA, wedi ennill Gwobr Partner Centrepoint UK 2024.**

Mae'r wobr hon yn cydnabod ei thaith ryfeddol a'i gwytnwch wrth oresgyn heriau sylweddol drwy gydol ei bywyd. Fe'i gwobrwywyd gan Tywysog William yng Ngwobrau Centerpoint yn yr Amgueddfa Brydeinig - Llundain.

Mae Gwobrau Centrepoint yn dathlu llwyddiannau pobl ifanc sydd wedi dangos dewrder ac ymrwymiad eithriadol. Fel prif elusen digartrefedd ieuenctid y DU, mae Centrepoint yn cefnogi bron i 14,000 o unigolion ifanc bob blwyddyn, gan amlygu doniau a chyflawniadau amrywiol y rhai sydd wedi wynebu adfyd.

Mae Anya wedi dangos cryfder i symud ymlaen o dywyllwch yn ei phlentyndod ac wedi creu dyfodol disglair, nid yn unig ar ei chyfer ei hun, ond hefyd i gefnogi pobl ifanc eraill sy'n wynebu digartrefedd.

Ar ben hynny, mae hi wedi llwyddo i ragori yn ei harholiadau. Mae hi wedi defnyddio ei phrofiadau byw i ddylanwadu ar wleidyddion i gefnogi pobl LHDTC+ yng Ngwynedd.

## GWOBRAU ELUSENNAU CYMRU

Mae Reece, person ifanc sydd yn cael ei gefnogi gan GISDA, wedi dod yn Teilwng yn y wobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn yn Gwobrau Elusennau Cymru 2024.

Mae Reece yn helpu'n aml yn ein Clwb LHDTC+ yng Nghaernarfon gwirfoddoli yn wythnosol yn Ysbyty Gwynedd a'n arwain sesiynau crefft i'n pobl ifanc. Rydym mor falch ohonat ti Reece.




## GWOBRAU CHWARAEON GWYNEDD 2024



Rydym wrth ein boddau bod GISDA wedi ennill y wobr Cyflogwr Actif y Flwyddyn 2024 yng Ngwobrau Chwaraeon Gwynedd.

## GWOBRAU IECHYD MEDDWL A LLES

Rydym mor falch bod wnaethom gyraedd y rownd derfynol gwobr Sefydliad Elusennol Ysbrydoledig ochr yn ochr ag ymgeiswyr sy'n ymroddedig i flaenoriaethu lles eraill.



# DEIALOG IEUENCTID UE-DU 2024

Ymunodd Reece, arweinydd ifanc o GISDA â Deialog Ieuenctid UE-DU 2024 yn Llundain, lle daeth 150 o leisiau ieuenctid ynghyd i drafod materion pwysig fel symudedd ieuenctid, cynhwysiant, a'r berthynas rhwng y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Roedd y digwyddiad ysbrydoledig hwn yn cysylltu pobl ifanc â llunwyr polisi i hyrwyddo cyfleoedd ledled Ewrop. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at effaith rhaglenni cyfnewid fel Erasmus+ a'n rhaglen gyfnewid Gymreig, TAITH! Rydym yn hynod o falch o Reece am gynrychioli ieuenctid Gwynedd a Chymru yn y sesiwn dylanwadol yma!



**Teithiodd Kaya, ein Rheolwr Prosiect TAPI, i Parma gyda Phrosiect TAITH i fynychu fforwm LGBTQ+ a drefnwyd gan Ganolfan Ali Forney, asiantaeth o Efrog Newydd sy'n cefnogi ieuenctid LHDTC+. Daeth y digwyddiad â 25 o asiantaethau gwahanol ynghyd o 16 o wledydd ledled y byd.**

**Roedd y fforwm yn gyfle amhrisiadwy i rwydweithio gyda sefydliadau eraill sy'n cefnogi unigolion LHDTC+ yn fyd-eang. Roedd yn llwyfan i rannu arferion gorau, dysgu am yr heriau maen nhw'n eu hwynebu, ac archwilio sut maen nhw'n mynd i'r afael â'r materion hyn.**




GISDACTIF

Mae GISDACTIF yn hyrwyddo lles corfforol a meddyliol i bobl ifanc yng Ngwynedd! Mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau hwyliog i helpu pobl i symud, cysylltu ag eraill, a rhoi hwb i'w llesiant.

Mae ein pobl ifanc wedi bod yn brysur yn y misoedd diwethaf gyda GISDATIF yn beicio, dringo, padl fyrddio, cerdded ayyb. Mae llawer hefyd wedi derbyn 'Smart Watch' er mwyn monitro eu camau ddyddiol.






# ACADEMI CYFLEON

**152** o bobl ifanc wedi derbyn cefnogaeth yn y chwarter diwethaf

**66** o bobl ifanc newydd wedi agor

**14** o bobl ifanc wedi cau gyda'r prosiect oherwydd bod eu hanghenion cymorth wedi'u diwallu gan yr Academi



Mae'r Academi Cyfleon yn anelu i gefnogi pobl ifanc sydd eisiau cefnogaeth ychwanegol i chwilio am waith, cyfleon gwirfoddoli, cael mynediad at addysg, datblygu eu sgiliau byw'n annibynnol (coginio, cyllidebu ayyb), neu cwblhau hyfforddiant. Mae pob person ifanc rhwng 14 a 25 yn gymwys i dderbyn cefnogaeth gan yr Academi.

## GWIRFODDOLI

**16** wedi derbyn cefnogaeth i gael mynediad at wirfoddoli

**4** wedi cwblhau achrediad Agored Cymru

**499** Oriau gwirfoddoli wedi cwblhau yn y cyfnod hwn

## ADDYSG

**102**

O achrediadau wedi cwblhau efo disgyblion mewn ysgolion

**4**

O grwpiau mewn ysgolion sydd wedi derbyn cefnogaeth

Agored Cymru

## CYMORTH TAI: CEFNOGI POBL IFANC DDIGARTREF YNG NGWYNEDD

Mae prosiect Cymorth Tai GISDA yn helpu pobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o golli eu cartrefi, gan roi'r sefydlogrwydd a'r gefnogaeth sydd angen arnynt i adeiladu dyfodol mwy disglair. Fel ein prosiect mwyaf, mae'n darparu gwasanaeth pwysig drost ben i bobl ifanc bregus Gwynedd, a bydd 62 o unigolion yn derbyn cefnogaeth gennym ar unrhyw un adeg.

Fel rhan o'r prosiect, mae pobl ifanc yn cael cymorth cynhwysfawr wedi'i deilwra i'w hanghenion trwy ein model cymorth therapiwtig, "Model FI." Mae'r cymorth hwn yn eu galluogi i ddeall eu hawliau a datblygu'r sgiliau a'r cyfrifoldeb maent eu hangen i symud ymlaen i fyw'n annibynnol.

*"Dwi'n hoffi'r fflat dwi wedi gael gan GISDA, a mae'r cefnogaeth dwi'n cael mor dda, dwi'n edrych ymlaen i'r holl gweithgareddau"*



## TY NEWYDD YNG NGHAERNARFON

Fe wnaethom brynu'r tŷ hwn ym mis Ebrill eleni ac mae'n bellach yn barod i berson ifanc sydd wedi profi gofal symyd i mewn.

Dyma'r tŷ cyntaf i GISDA brynu ac adnewyddu heb arian cyhoeddus o gwbwl.









## PROSIECT FEDRA I (ICAN)

**265**

UNIGOLION WEDI DERBYN CEFNOGAETH '23-24

- **70%** Nodwyd gwelliant yn eu hiechyd meddwl a'u lles
- **59%** Nodwyd eu bod bellach yn gallu ymdopi'n well â sefyllfaoedd anodd
- **77%** Nodwyd cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael

**Mae prosiect ICAN GISDA yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi pobl ifanc yng Ngwynedd sy'n cael trafferth gyda salwch meddwl ysgafn i gymedrol. O fewn canolfannau croesawgar yng Nghaernarfon, Pwllheli a Bangor, gall unigolion gael mynediad hawdd at ystod o ymyriadau a chymorth therapiwtig cynnar.**

# Academi Adra

*Rydym yn hynod o falch i rannu fod 3 person ifanc sydd yn cael ei gefnogi gan GISDA wedi cael swydd trwy Academi Adra.*

*Mae Academi Adra yn cynnig cyrsiau sy'n rhoi wythnos o hyfforddiant yna wythnos o brofiad Gwaith, unai gydag tîm yn Adra neu gydag un oi Partneriaid. Ar ôl pythefnos mae cynnig i bawb ymgeisio am leoliad gwaith gyda thâl.*



## HWB BANGOR

**Mae gennym Hwb newydd ym Mangor, ac fe fydd GISDA yno bob wythnos o Ddydd Mawrth i Ddydd Iau. Rydym yn falch iawn o allu ehangu ein gwasanaethau er mwyn cynnig cymorth a chyfleon i bobl ifanc Bangor gyda chefnogaeth Cyngor Dinas Bangor.**

**MAW**

Cymorth Tai Academi

**MER**

Clwb LHDTC+



**IAU**

Galw Mewn FEDRAI

CYNGOR DINAS BANGOR CITY COUNCIL

## PROSIECT 'FEL MERCH' YR URDD

Mae Keira wedi cael ei dewis yn un o 10 merch ifanc drwy Gymru i fynd i'r India gyda'r Urdd Gobaith Cymru i wirfoddoli gyda elusen arbennig Her Future Coalition yn ardal Kolkata.  Roedd Keira yn cynrychioli GISDA yn Senedd Ieuenctid Cymru tan yn ddiweddar ac rydym yn hynod falch ohoni.

Mae Her Future Coalition yn ceisio torri'r cylch tlodi wrth gefnogi plant a merched drwy gyfleoedd addysgiadol, meithrin sgiliau newydd a darparu cymorth i ferched bregus. Bydd yn gyfle bythgofiadwy i deithio, cael profiad arbennig a chefnogi merched ifanc a phlant yn ardal Kolkata.

Mae pob merch yn gorfod casglu £250 eu hunain tuag at elusen yn Kolkata. Os hoffech gyfrannu, byddai Keira yn hynod ddiolchgar. Ewch i'n tudalen Facebook i ddarllen mwy.




Mae GISDA yn hynod falch o gael ein dewis i fod yn rhan o raglen Esiamplwyr Bevan drwy Comisiwn Bevan, sy'n cefnogi staff ar draws Cymru i ddatblygu ac arbrofi syniadau arloesol gyda'r nod o wella gwasanaethau iechyd.

Ein bwriad yw datblygu hwb therapiwtig i bobl ifanc sy'n wynebu heriau iechyd meddwl, gan gynnig lle diogel a phwrpasol gyda chefnogaeth amserol a therapiwtig sy'n ymateb i'w hanghenion.

Rydym yn falch o fod yn rhan o garfan 9, a daethom at ein gilydd yn ddiweddar i ddechrau'r broses. Roedd yn bleser bod mewn ystafell gyda phrosiectau arloesol ac ysbrydoledig, ac i rannu'r profiad gyda chymaint o unigolion brwdfrydig!

## COMISIWM BEVAN




## COMISIYNYDD Y GYMRAEG




Ddoth Efa Gruffudd Jones Comisiynydd y Gymraeg a'i staff i ymweld â GISDA. Mae Efa y teimlo'n angerddol dros bobl ifanc ac roedd hi'n falch o glywed am gynnig GISDA a bod y cyfan ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hi'n braf treulio amser gydag Efa yn sôn am ein gwaith ond hefyd i glywed am eu gwaith a'u blaenoriaethau dros y blynyddoedd nesaf.

## COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Roedd hi wirioneddol yn bleser gwahodd Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i GISDA, Caernarfon. Cawsom y cyfle i gyflwyno ein gwaith a rhannu'r heriau. Mae Derek wedi bod yn ffrind i GISDA ers blynyddoedd, wastad yn gefnogol o fentrau a mudiadau gwirfoddol fel ni. Rydym yn gweithio ar strategaeth 'Gall GISDA' i gyd fynd gyda blaenoriaethau strategol y Comisiynydd yn eu cynllun 'Cymru Can' - roedd o yn falch eithriadol o hyn ac am ddychwelyd atom i ddilyn ein datblygiadau.



# PARTNERIAETH FRAN WEN




Dechreuodd ein partneriaeth gyda Fran Wen, cwmni theatr Cymraeg, yn 2022.
Sefydlwyd grŵp Nabod, sydd wedi cael eu gyllido gan Plant Mewn Angen, drwy ddod ag aelodau o glybiau LGBTQ+ GISDA o Blaenau Ffestiniog, Caernarfon a Phwllheli at ei gilydd i weithio gyda Frân Wen.

Mae'r prosiect yn cynnig gofod cynhwysol a diogel i bobl ifanc creadigol weithio ochr-yn-ochr gydag artistiaid amlddisgyblaethol - ac mae'n un sydd wedi tyfu i fod yn rhywbeth llawer mwy na'r disgwyl.

Daeth syniadau ysbrydoledig o'r sesiynau cynnar a thros amser daeth y grŵp at ei gilydd i fireinio'r rhain, gan ddatblygu themâu a chymeriadau yr oeddent am ganolbwyntio arnynt.

Ar yr un pryd, roedden nhw yn cael sgyrsiau gydag artistiaid amrywiol am bethau roedden nhw'n dyheu amdanyn nhw o ran prosesau creadigol - graddfa, uchelgais, cyd-greu, a chyfleoedd i weithio mewn ffyrdd newydd. Ac felly dyna ddechreuad OLION, gyda'r weledigaeth o gynnig rhywbeth gwahanol i artistiaid a chynulleidfaoedd.

# OLION

Trwy gydol ymarferion OLION, roedd aelodau'r grŵp NABOD yn cysgodi gwahanol artistiaid yn seiliedig ar eu diddordebau. Roedd Anya, person ifanc sy'n cael cefnogaeth gan GISDA, wedi cael cyfle i gysgodi'r Cyfarwyddwr Creadigol Gethin yn yr ystafell ymarfer, ac roedd Reece wedi bod yn gweithio gyda'r dylunydd gwisgoedd a set, Elin Steele.

Mae wedi bod yn fraint i gydweithio gyda Cwmni Fran Wen , dyma griw o bobl ifanc sydd wedi datbygu sgiliau a chael profiadau eang fel rhan o'r prosiect hwn.





## SUT GALLWCH CHI GEFNOGI GISDA:

### RHOI

**'GIVE AS YOU LIVE'** Give as you Live Online

Codwch arian i GISDA o'ch siopa bob dydd heb unrhyw gost ychwanegol! Sganiwch y Cod QR i ddarganfod mwy:

**CYFRANNU TRWY 'TEXT'**

Tecstiwch: **GISD41 £X** i **70070**
(e.e. **GISD41 £5** i **70070**)

**JustGiving**

Ewch i'n tudalen Just Giving:
**www.justgiving.com/gisda**

### FFYRDD ERAILL I HELPU

**Gwirfoddoli:** Rydym yn croesawu gwirfoddolwyr i'n helpu i redeg ein rhaglenni a'n digwyddiadau.

**Codi Arian:** Trefnwch digwyddiad codi arian neu heriwch eich hun gyda sialens codi arian personol.

**Lledaenwch y gair:** Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch teulu am GISDA a'n gwaith.

**Dilynwch Ni ar Gyfryngau Cymdeithasol**
Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol i glywed am ein newyddion, digwyddiadau a chyfleoedd diweddaraf.







# APEL Y NADOLIG

**Rydym yn apelio am roddion i bobl ifanc 14-25 GISDA**

## DYDDIAD CAU - 16/12/24

TALEBAU ANRHEG * BAGIAU
NWYDDAU YMOLCHI * DILLAD
PJS * SIOCLED * COLUR

## GOLLWNG YN :

23 BONT BRIDD, CAERNARFON, LL55 1AB
25 GAOL STREET, PWLLHELI, LL53 5DB
49 STRYD FAWR, BLAENAU FFESTINIOG, LL41 3AG

